**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Minimum unit pricing for alcohol in Wales**

**MUP14 : Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Response from: Welsh Local Government Association**

---

# Tystiolaeth Ysgrifenedig

Ebrill 2025

## Ymchwiliad ysgrifenedig y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Isafbris uned am Alcohol yng Nghymru

### Cyflwyniad

I hysbysu ymchwiliad ysgrifenedig Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar weithrediad ac effeithiolrwydd Isafswm Pris Uned Alcohol.

Mae'r ymateb hwn yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r materion a restrwyd a oedd o ddiddordeb ac o fewn cwmpas Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Croesawn unrhyw gyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor mewn perthynas â thestun mor bwysig, sy'n cyrraedd tu hwnt i arena iechyd a gofal cymdeithasol.

### Cyflwyniad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ydym ni; sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Drwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod yn y pen draw** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Helpu cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol.

## Ymateb CLlLC

**Dealltwriaeth y cyhoedd o isafbris uned**

1. ***Mae isafbris uned yn fesur gwella iechyd wedi'i dargedu sydd â'r nod o leihau'r defnydd o alcohol ymhlith pobl sy'n yfed lefelau niweidiol ohono. Pa mor effeithiol y mae diben y ddeddfwriaeth wedi cael ei gyfleu i'r cyhoedd ac i'r busnesau yr effeithir arnynt?***

Cafodd lansiad yr Isafswm pris uned o alcohol ei rannu'n effeithiol pan gafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ei basio, ond cafodd ei weithrediad ar 2 Mawrth 2020 ei daflu i'r cysgod gan bandemig Covid-19, gyda chyfnod clo cyntaf y DU yn digwydd dair wythnos wedyn.

Cafodd y diben o leihau defnydd problematig o alcohol ac effaith niweidiol diodydd rhad gyda chynnwys alcohol uchel ei gyhoeddi'n eang trwy'r cyfryngau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol, fodd bynnag gydag effeithiau'r pandemig, ac yn bwysicach, yr argyfwng costau byw nid yw'r neges mor gryf neu nid yw bellach yn berthnasol i nifer o bobl. Efallai bod goblygiadau ehangach yr argyfwng costau byw ar gyllidebau unigolion a theuluoedd, lefelau cynyddol o dlodi ac argyfwng tai a digartrefedd, sydd oll yn ychwanegu straen a phwysau y mae pobl yn ei deimlo, wedi disodli'r naratif.

**Effaith isafbris uned**

2. ***Pa effaith y mae isafbris uned wedi'i chael ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru?***

Mae CLlLC yn nodi bod ymchwil annibynnol wedi cael ei gyflawni ac mae adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi sy'n canolbwyntio ar fanwerthwyr, yfwyr a'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau arbenigol.

3. ***Pa effaith y mae cyflwyno'r isafbris wedi'i chael ar grwpiau penodol, gan gynnwys:***
   a. ***yfwyr dibynnol ac agored i niwed***

   Gweler y dystiolaeth yn yr adroddiadau.

   Efallai bod canlyniadau cynnar ar gyfer yfwyr diamddiffyn a dibynnol, ond cafodd y dystiolaeth o safbwynt Cynghorau ei daflu i'r cysgod gan bandemig Covid-19 a'r camau gweithredu a'r ymatebion oedd eu hangen. Roedd y pandemig wedi effeithio ar allu pobl i symud o gwmpas yn hawdd a hefyd wedi effeithio ar grwpiau cymunedol a gwasanaethau lleol a oedd wedi paratoi i ymateb i gynnydd posibl mewn galw, ac yn hytrach wedi gorfod cynllunio i newid o fewn y canllawiau. Roedd y lleihad mewn symud yn golygu ar y cyd â phrinder hanfodion yn cael ei adrodd, roedd adroddiadau hefyd gan allfeydd newyddion o gynnydd mewn gwerthiant alcohol .

   Nid yw effeithiolrwydd Isafswm Pris Uned o Alcohol wedi'i arsylwi yn benodol o fewn Cynghorau, ond gall hyn fod yn sgil canolbwynt a sylw i heriau eraill, a'r argyfwng tai a

chostau byw yn ei gwneud yn anodd canfod effeithiau penodol, wrth i ni ddarparu'n gyfannol ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau ar draws Cymru.

***b. plant a phobl ifanc***

Cyfeiriwn at ein cyfeiriad blaenorol at adroddiadau annibynnol lle mae gwybodaeth gyfyngedig o ran plant a phobl ifanc. I baratoi ar gyfer gweithrediad, mynegwyd pryderon am effeithiau negyddol posibl Isafswm Pris Uned o Alcohol ar gyfer plant petai teuluoedd yn blaenoriaethu gwario ar alcohol dros filiau eraill. Mae'r dystiolaeth o fewn yr adroddiadau "yn awgrymu bod y pryderon canfyddedig hyn yn ddi-sail."Cefnogir hyn gan ymchwil ar gyfer Llywodraeth yr Alban yn dilyn eu gweithrediad o Isafswm Pris Uned o Alcohol.

Efallai bod newid mewn diwylliant eisoes o ran plant a phobl ifanc i ffwrdd o alcohol, gyda chymysgedd o alcohol a chyffuriau yn un o'r allfeydd posibl. Mae rhai enghreifftiau yn gysylltiedig â'r ddibyniaeth posibl ac ymddygiad i ddiodydd caffein egni uchel, wedi cael ei weld mewn ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, ac mae'r cynnydd mewn fêps a fêpio yn broblem a phryder cynyddol gydag ychydig iawn o ddeddfwriaeth i gefnogi'r rhai sy'n ceisio lliniaru'r problemau hyn.

Mae plant yn codi pryderon cynyddol ac yn dangos gorbryder o ran cyllid a thai, sydd wedi cael ei amlygu gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ei Hadroddiad Amlygu: Sut mae materion tai a digartrefedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn waeth ar gyfer gofalwyr ifanc gyda 56% yn nodi bod yr argyfwng costau byw bob amser neu fel arfer yn effeithio arnyn nhw a'u teulu yn ôl Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn 2023 yn eu hadroddiad Being a Young Carer is Not a Choice.

Mae'n anodd darparu unrhyw eglurder ar yr effaith ar blant a phobl ifanc yn benodol o ran yr Isafswm Pris Uned o Alcohol, pan ydym yn ymwybodol o gynnydd mewn problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Gorbryder cynyddol, pryder o ran tai a digartrefedd, yr heriau ychwanegol a wynebir gan ofalwyr ifanc, a'r nifer cynyddol o blant sy'n byw mewn tlodi, ond i enwi ond y rhai. Oll yn cystadlu yn erbyn cefndir o argyfwng costau byw sy'n effeithio ar gostau bob dydd ac yn ychwanegu at bryderon plant, pobl ifanc a theuluoedd. Awgrymwn fod angen cymryd safbwynt mwy holistaidd, gan ddod â'r holl ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar blentyn ynghyd a darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n ymatebol i unrhyw Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

***c. aelwydydd incwm isel***

Mae'r adroddiadau annibynnol yn awgrymu fod yr Isafswm Pris Uned o Alcohol wedi cael effaith ar aelwydydd incwm isel a'r dewisiadau maent yn eu gwneud.

Mae Cynghorau yn parhau i weithio gydag unigolion, teuluoedd a chymunedau i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer gwneud y mwyaf o incwm a lleihau costau. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, mae effaith yr argyfwng costau byw ac unrhyw

broblemau tai a digartrefedd yn gallu dwysau'r dewisiadau ariannol a wneir. Felly nid yw'n bosibl i Gynghorau ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol fod unrhyw newid mewn ymddygiad yn gysylltiedig yn benodol â'r polisi o amgylch Isafswm Pris Uned o Alcohol ar yr amser hwn.

4. ***Pa effaith y mae cyflwyno'r isafbris yng Nghymru wedi'i chael ar (i) manwerthwyr a (ii) awdurdodau lleol?***

***i) manwerthwyr***

Dim sylwadau.

***ii) awdurdodau lleol***

Darperir gweithrediad a monitro'r Isafswm Pris Uned o Alcohol gan Gynghorau trwy dimoedd Safonau Masnach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae swyddogion yn adrodd nad yw'r baich rheoleiddio newydd wedi effeithio'n sylweddol ar eu swyddogaethau dyddiol. Fodd bynnag, mae wedi bod yn ofynnol i swyddogion ddeall a dehongli'r ddeddfwriaeth newydd yn ddigonol, er mwyn archwilio a chynghori perchnogion eiddo a busnesau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Ychydig iawn o orfodi sydd wedi cael ei wneud, gydag ychydig iawn o gwynion wedi'u derbyn, a dim ond un rhybudd cosb wedi ei gyhoeddi. Mae swyddogion wedi adrodd bod y cyfrifiannell Isafswm Pris Uned o Alcohol a ddarparwyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gan leihau amseroedd archwilio.

Mae'n anodd canfod pa effaith mae'r Isafswm Pris Uned o Alcohol wedi ei gael ar wasanaethau eraill y Cyngor, megis tai, cydlyniant cymunedol, diogelwch cymunedol a gofal cymdeithasol yn sgil amseru'r gweithrediad. Cafodd gwasanaethau'r Cyngor eu haddasu i ddarparu anghenion cymunedau lleol mewn ymateb i'r pandemig, ac yna i ymateb i'r argyfwng costau byw a'r argyfwng tai.

**Dyfodol isafbris uned yng Nghymru**

5. ***A ddylai isafbris uned barhau yng Nghymru? Pam?***

Rydym yn cytuno y dylai'r Isafswm Pris Uned o Alcohol barhau fel rhan o raglen ehangach o hyrwyddo ffordd o fyw iach gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghynhadledd Bevan ar 26 Mawrth ei fod eisiau i Gymru fod y Genedl Marmot cyntaf, ac mae parhau gyda'r Isafswm Pris Uned o Alcohol yn rhan o gefnogi'r ddarpariaeth.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn derbyn tystiolaeth yn ddiweddar ar eu hymchwiliad i ran atal afiechyd - gordewdra sydd wedi cynnwys canolbwyntio ar gynllunio a'r ddarpariaeth o fwyd cyflym, rhad, mewn ardaloedd sy'n agos at ysgolion ac mewn ardaloedd o dlodi. Cyn y pandemig, un o'r dulliau a ddefnyddiwyd gan Brifysgol Caerdydd i geisio lleihau gor-yfed ymysg myfyrwyr benywaidd oedd darparu posteri yn dangos y calorïau mewn alcohol o'i gymharu ag amryw o fwyd cyflym. Er nad dyma yw prif ganolbwynt ar gyfer lleihau lefelau defnydd alcohol, yn aml gall y calorïau gael eu hanwybyddu.

6. ***A ddylai'r isafbris uned presennol o 50c gael ei adolygu? Pam?***

Dylai'r lefel gael ei adolygu, oherwydd yn sgil yr argyfwng costau byw mae prisiau yn cynyddu ar holl gynnyrch, ac felly efallai nad yw'n cael yr un effaith ar y lefel bresennol ag yr oedd yn 2020. Awgrymwn ei bod yn briodol rhoi proses mewn lle ar gyfer ei adolygu'n awtomatig yn rheolaidd, bob yn ail flwyddyn o bosibl, fel y gellir ei addasu ar gyfer chwyddiant a ffactorau eraill a all gynyddu prisiau nwyddau amgen uwchben yr Isafswm Pris Uned o Alcohol.

Yn yr Alban, cynyddodd yr Isafswm Pris Uned o Alcohol i 65c yr uned ym Medi 2025, gan gynyddu o 50c. Efallai bod cyfle i Gymru ddefnyddio'r ymchwil a thystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr Alban i gyflymu'r broses gwneud penderfyniad ar unrhyw gynnydd yng Nghymru.

7. ***Bwriedir i isafbris uned fod yn un o amrywiaeth o ddulliau polisi ar gyfer mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. A oes angen ystyried/cryfhau unrhyw ddulliau eraill er mwyn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru?***

Nid yw niwed sy'n ymwneud ag alcohol yn digwydd neu'n cael effaith ar ei ben ei hun, gall fod yn sbardun neu'n ymateb. Er enghraifft, gall alcohol arwain at drais domestig lle mae ymddygiad y cyflawnwr yn dirywio gydag alcohol, ond ar gyfer dioddefwr trais domestig, gall arwain at ddefnyddio alcohol fel rhan o'u mecanweithiau ymdopi. Yn yr un modd, gall bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yfed alcohol i helpu i reoli neu anghofio sut maent yn teimlo, ond gall ormod o alcohol arwain at ymddygiad a hwyliau isel sy'n dirywio iechyd meddwl yr unigolyn hwnnw.

Mae'n bwysig nad ydym yn ystyried niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a gwasanaethau a chymorth ar eu pen eu hunain, ond fel rhan o ddull holistaidd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i adeiladu ar sylfaen model cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi darparu dull meddygol ac unrhyw achosion posibl i gael eu rheoli a cheisio datrysiadau amgen yn y dyfodol.

Mae Ymchwil i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi canfod os yw plant yn destun pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod maent bedwar gwaith yn fwy tebygol o fod yn yfwr risg uchel pan fyddent yn oedolion. Trwy ymateb i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gynt gyda phlant ac oedolion ifanc, gall y niferoedd gael eu lleihau i'r un fath neu'n debyg i'r rhai gyda llai na phedwar profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn bwysig nid yn unig ar gyfer yfed peryglus ond ar gyfer ystod o ganlyniadau bywyd eraill a fydd yn elwa unigolion, teuluoedd a chymunedau.

8. ***Pa effaith y mae isafbris uned wedi'i chael ar yr angen am wasanaethau triniaeth a chymorth o ran alcohol?***

Mae angen parhaus ar gyfer gwasanaethau trin a chefnogi alcohol ar draws Cymru. O ystyried y materion amgylcheddol eraill sydd eisoes wedi'u crybwyll yn yr ymateb hwb, mae'n anodd canfod effaith Isafswm Pris Uned o Alcohol ar wasanaethau trin a chefnogi alcohol ar ei ben ei hun. Ar y cyd, fodd bynnag, o bosibl mae wedi arwain at gynnydd yn

y galw nid yn unig am wasanaethau alcohol a chamddefnyddio sylweddau eraill, ond hefyd yn debygol o fod wedi cynyddu’r cymhlethdod ar gyfer gwasanaethau perthnasol eraill megis iechyd meddwl a gwasanaethau a chymorth trais domestig.

9. ***Pa effaith y mae isafbris uned wedi’i chael o ran y risg y gall sylweddau mwy peryglus ac anghyfreithlon yn cymryd lle alcohol?***

Mae’r ystod o faterion ac effeithiau posibl yn amrywio gyda thueddiadau gwahanol. Mae’r cynnydd mewn defnydd o gyfuniad o alcohol a chyffuriau anghyfreithlon eraill wedi’i ganfod cyn i’r Isafswm Pris Uned o Alcohol gael ei gyflwyno yn 2020. Ac nid ydym yn teimlo bod yr ymddygiad hwn wedi lleihau.

Mae risg yn parhau ar gyfer creu alcohol adref. Fodd bynnag, roedd peth o’r cynnydd o ran pobl yn gwneud eu halcohol eu hunain adref yn sgil eisiau dechrau diddordeb newydd yn ystod cyfyngiadau’r pandemig, a bod hyn wedi parhau yn sgil yr argyfwng costau byw. Os yw creu alcohol ar gyfer eu defnydd eu hunain, mae gwneud hynny tu allan o reoliadau yn debygol o amrywio cryfder yr alcohol.

Mae pryder cynyddol am y tirlun newidiol o opiodiau synthetig megis Nitazines, sydd hefyd yn fygythiad sydd angen ei ystyried. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol fod gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio i ganfod cyflwr y farchnad cyffuriau, yn cydnabod y newid i gynhyrchu tabledi synthetig mewn swmp, sydd ar gael ar y farchnad ddu heb eu rheoli.

Mae cynnydd mewn dwyn o siopau ar draws Cymru, gydag alcohol yn un o’r eitemau sydd bellach yn cael ei dargedu. Mae’n anodd gwybod os yw hyn yn gysylltiedig â’r Isafswm Pris Uned o Alcohol, yr argyfwng costau byw, lefelau tlodi neu mewn rhai amgylchiadau, rhan o drosedd cyfundrefnol. Er nad yw cymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol megis dwyn yr un fath â chymryd sylweddau, gall fod yn gaethiwus a darparu adrenalin ei hun.